
# Agor y Llyfr




# Deunydd sampl



# Cynnwys

4 Croeso i Agor y Llyfr

7 Amserlen Wythnosol ar gyfer y straeon

8 Tudalennau Beibl y Storïwr: Galw'r Disgyblion Stori 55

10 Llawlyfr y Storïwr: Galw'r Disgyblion Stori 55

12 Tudalennau Beibl y Storïwr: Jona Stori 38

14 Llawlyfr y Storïwr: Jona Stori 38

# Croeso i Agor y Llyfr!

**O gael ei hadrodd yn dda, gall stori o'r Beibl danio'r dychymyg, ysbrydoli ymchwilio, rhoi gobaith, ennyn gwên, dysgu gwersi pwysig a chysylltu cenedlaethau.**

## Popeth y mae arnoch ei angen ar gyfer stori o'r Beibl, wedi'i hadrodd yn dda.

**Beth yw Agor y Llyfr?**

Mae Agor y Llyfr yn brosiect cyffrous lle mae straeon o'r Beibl yn cael eu rhannu â phlant mewn ffordd sy'n hwyl, yn rhyngweithiol ac yn gofiadwy. Gwahoddir timau storïwyr i ysgolion ac maent yn defnyddio rhaglen Agor y Llyfr i baratoi stori 10 i 15 munud o'r Beibl, wedi'i sgriptio, a'i chyflwyno mewn gwasanaeth ysgol. Caiff y plant eu cynnwys gymaint â phosibl wrth adrodd y stori. Gall y cyflwyniad sefyll ar ei ben ei hun, neu fod yn rhan o wasanaeth ysgol ehangach.

**Pam rydym ni'n gwneud Agor y Llyfr?**

Y weledigaeth y tu ôl i Agor y Llyfr yw defnyddio grym adrodd straeon i rannu storïau o'r Beibl gyda phob plentyn, ym mhobman. Daw'r sylfaen Feiblaidd o Salm 78.1–7. Rydym yn parhau â'r traddodiad Cristnogol o adrodd straeon rhwng cenedlaethau, a hyd yn oed yn hau hadau ar gyfer cenedlaethau sydd heb eu geni eto.

**Pwy sy'n cymryd rhan?**

Mae aelodau'r timau storïwyr yn wirfoddolwyr o eglwysi a sefydliadau lleol. Maent wedi'u hyfforddi ac wedi'u recriwtio mewn dull diogel, ac maent yn cytuno i ddilyn Cod Ymarfer Agor y Llyfr. Mae'r timau storïwyr yn cysylltu â rhywun penodol yn yr ysgol i drafod diwrnod ac amser eu hymweliad, ynghyd ag arferion, trefniadau diogelwch a pholisi diogelu yr ysgol.

**Beth sydd ei angen arnaf?**

Mae gan bob Storïwr gopi o *Feibl y Storïwr*, Agor y Llyfr a'r Llawlyfr hwn. Mae 90 o straeon ym *Meibl y Storïwr*, gan ddechrau gyda Genesis a'n harwain yr holl ffordd i'r Datguddiad. Yna, mae'r Llawlyfr hwn yn nodi popeth y mae angen i chi ei ddweud i wneud gwasanaeth llawn. Mae yna groeso a chyflwyniad cyn darllen y stori, a munud dawel wedyn i fyfyrio a rhyfeddu, ynghyd â gweddi i'w hoffrymu, gyda chyflwyniad. Mae'r Llawlyfr yn rhoi rhestr o gymeriadau hanfodol a rhai ychwanegol hefyd.

Mae dewis o ganeuon y gellir eu defnyddio *(Saesneg)*, ynghyd â rhagor o syniadau am ffyrdd o wneud y stori'n fwy rhyngweithiol, i'w gweld ar ein gwefan: biblesociety.org.uk/get-involved/open-the-book.

Mae i'r rhaglen Agor y Llyfr sgript benodol a gofynnwn i bob Storïwr gadw at y sgript. Mae staff mewn ysgolion yn gwerthfawrogi Agor y Llyfr gan eu bod yn gwybod yn union beth sy'n cael ei ddweud a'u bod yn gallu bod yn hyderus wrth ateb unrhyw gwestiynau a ofynnir

SAMPLE

iddynt am gynnwys y gwasanaeth.  Cymerwyd gofal mawr i sicrhau bod y straeon a sgriptiau'r gwasanaethau'n dderbyniol ac yn hygyrch i'r gynulleidfa ehangaf bosibl.  Yn ogystal, mae'r sgript yn caniatáu i blant o bob ffydd a rhai heb ffydd i benderfynu a hoffent ymuno yn y weddi ai peidio.

**Beth ddylwn i ei wneud gyntaf?**

Cyn ymweld ag ysgol, rhaid i bob Storïwr gymryd rhan yn hyfforddiant Agor y Llyfr, cael ei recriwtio'n ddiogel gan yr eglwys neu'r sefydliad anfon a llofnodi Cod Ymarfer Agor y Llyfr. Mae angen i dimau Agor y Llyfr enwebu Arweinydd Tîm hefyd.

**Diogelu Plant**

Rhaid i'r holl Storïwyr gael eu recriwtio mewn ffordd ddiogel gan eu heglwys neu'r sefydliad anfon.  Nid yw'n dasg nac yn gyfrifoldeb i Agor y Llyfr na Chymdeithas y Beibl wneud gwaith recriwtio.  Mae Storïwyr Agor y Llyfr yn gymwys i wneud cais am Wiriad Manwl y DBS (heb wirio'r rhestr wahardd).  Gall rhai ysgolion fynnu bod y gwiriad hwn yn cael ei gynnal cyn i wirfoddolwyr ddod i'r ysgol fel Storïwyr Agor y Llyfr.

Rhaid i bob Storïwr gael canllaw diogelu'r cynllun Agor y Llyfr.  Mae'r canllaw'n rhestru beth i'w wneud a phwy i gysylltu â nhw os oes gan Storïwr bryder am blentyn neu oedolyn.

Ni ddylai Storïwyr unigol fod ar eu pen eu hunain gyda phlant ysgol; dylent fod yng ngolwg aelodau eraill y tîm bob amser.  Rhaid i storïwyr fod yng nghwmni aelodau o'r staff yn ystod gwasanaethau ac ymarferion.

Cyfrifoldeb Arweinydd y Tîm yw sicrhau bod yr holl Storïwyr yn cael eu recriwtio'n ddiogel, eu hyfforddi a'u cofrestru gydag Agor y Llyfr cyn mynd i ysgol.

**Perthynas â'r ysgol**

Mae'n hanfodol bod cyfathrebu da rhyngoch a'r ysgol. Dylai Arweinwyr Tîmau gydweithio'n agos ac yn sensitif â staff yr ysgol, gan ystyried cyd-destun ac amgylchedd addysgol yr ysgol. Dylai fod ganddynt cyn lleied ag y bo modd o ofynion, gan gofio mai ymwelwyr gwadd yw timau Agor y Llyfr.

**Sut mae ysgolion yn elwa ar Agor y Llyfr?**

- Mae'n sicrhau bod cysylltiad rhwng yr ysgol a'r gymuned
- Mae'n rhoi cyfleoedd i feithrin perthnasoedd rhwng cenedlaethau
- Mae'n cynnig amser i fyfyrio'n dawel fel y mae'n ofynnol ei gynnwys yn y diwrnod ysgol
- Mae'n cynnig gwasanaeth da i'w gynnal yn yr ysgol
- Gwnaed sylwadau ffafriol amdano mewn adroddiadau swyddogol ar ysgolion
- Nid yw'n costio dim i'r ysgol
- Nid oes angen i staff yr ysgol wneud unrhyw waith na chynllunio ychwanegol
- Mae'n llwyddiannus mewn cyd-destunau aml-ffydd

**Adrodd storïau o'r Beibl**

Nod Agor y Llyfr yw arfogi pobl i rannu straeon o'r Beibl â phlant mewn ffordd sy'n hygyrch a phleserus i rai o bob ffydd a dim ffydd, ac i adrodd straeon Beiblaidd mewn ffyrdd sy'n galluogi plant i ymgysylltu â'r testun mewn ffordd llawn dychymyg.

SAMPLE

Rydym wedi creu llinellau amser sy'n helpu'r timau storïwyr i benderfynu pa straeon i'w hadrodd a phryd. Rhoddir un enghraifft isod. Mae rhagor o linellau amser, ynghyd â rhestr o themâu a gwerthoedd, i'w gweld yn adran yr Aelodau ar wefan Agor y Llyfr: biblesociety.org.uk/get-involved/open-the-book

**Ein nodau**

- Sicrhau y gellir rhannu straeon o'r Beibl mewn ffordd hygyrch a phleserus â phlant, ym mhobman, o bob ffydd a dim ffydd
- Helpu'r plant i ymgysylltu â storïau'r Beibl mewn ffordd llawn dychymyg
- Hyfforddi Storïwyr gwirfoddol, fel bod ganddynt fwy o hyder yn y Beibl a'u bod yn gallu darparu gwasanaethau o safon uchel
- Helpu ysgolion cynradd i ddarparu gwasanaethau da
- Cyfrannu at addysg ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant
- Cyfrannu at lythrennedd Beiblaidd pob cenhedlaeth newydd
- Annog cysylltiadau rhwng yr ysgol, yr eglwys a'r cartref

**Ein Cod Ymarfer**

Mae pob Storïwr yn cytuno i:

- Gadw at y sgript a chyflwyno'r stori'n syml, gan ddilyn Llawlyfr Agor y Llyfr
- Gadael i bob stori siarad drosti ei hun, fel stori o'r Beibl, nid fel pregeth
- Cydweithio'n agos ac yn sensitif â'r ysgolion, gan ystyried cyd-destun ac amgylchedd addysgol yr ysgol
- Gofalu bod ganddynt cyn lleied ag y bo modd o ofynion, gan gofio mai ymwelwyr gwadd ydynt
- Dangos parch a sensitifrwydd at rai o ffydd arall a rhai heb ffydd
- Cyflawni gofynion diogelu perthnasol fel yr amlinellir ym Mholisi Diogelu ac yng Nghod Ymddygiad Agor y Llyfr
- Mynychu Hyfforddiant Craidd Agor y Llyfr cyn mynd i ysgol am y tro cyntaf, ac yna fynychu hyfforddiant gloywi bob tair blynedd
- Bod yng nghwmni aelodau o'r staff bob amser yn y sesiynau adrodd straeon
- Parchu hawlfraint deunyddiau Agor y Llyfr
- Sicrhau bod Cymdeithas y Beibl yn cael y manylion diweddaraf am y tîm a'r ysgolion

**Os oes gennych ryw gwestiwn, cofiwch gysylltu â ni.**

**Ebost: contactus@biblesociety.org.uk**

**Gwefan: biblesociety.org.uk/get-involved/open-the-book**

SAMPLE

# Trefn wythnosol i adrodd y straeon

**Ceir llinellau amser amgen ar ein gwefan.**

## Tymor yr Hydref

| | |
|---|---|
| 1 | Stori 1: Duw'n Creu |
| 2 | Stori 2: Gwrthryfel |
| 3 | Stori 3: Y Dilyw |
| 4 | Stori 4: Abraham |
| 5 | Stori 9: Joseff y Breuddwydiwr |
| 6 | Stori 11: Joseff y Pennaeth |
| 7 | Stori 12: Joseff y Brawd (dewisol) |
| 8 | Stori 13: Babi mewn Basged |
| 9 | Stori 14: Perth yn Llosgi |
| 10 | Stori 15: Plâu! a/neu Stori 16: Rhyddid o'r Diwedd |
| 11 | Stori 21: Jericho (dewisol) |
| 12 | Stori 25: Samuel (dewisol) |
| 13 | Stori 29: Dafydd a Goliath |

## Nadolig

| | |
|---|---|
| 14 | Stori 47: Ymweliad Gabriel |
| 15 | Stori 49: Ymlaen i Fethlehem a/neu Stori 50: Bugeiliaid ac Angylion |

## Tymor y Gwanwyn

| | |
|---|---|
| 16 | Stori 35: Cân y Bugail neu Stori 30: Solomon |
| 17 | Stori 38: Jona |
| 18 | Stori 43: Daniel yn Ffau'r Llewod |
| 19 | Stori 44: Nehemeia |
| 20 | Stori 51: Gwylwyr y Sêr (i atgoffa'r plant am enedigaeth Iesu) |
| 21 | Stori 52: Ble mae Iesu? |
| 22 | Stori 53: Ioan Fedyddiwr |
| 23 | Stori 54: Temtio |
| 24 | Stori 55: Galw Disgyblion |
| 25 | Stori 56: Pedwar Ffrind Da |

## Tymor yr Haf

| | |
|---|---|
| 26 | Stori 61: Storm! |
| 27 | Stori 62: Picnic ar y Mynydd |
| 28 | Stori 60: Dere, Dilyn Fi neu Stori 65: Ar Goll |
| 29 | Stori 64: Y Deyrnas Wyneb i Waered |
| 30 | Stori 66: Carwch eich Gelynion |
| 31 | Stori 71: Marchogaeth i Jerwsalem |
| 32 | Stori 75: Y Swper Olaf |
| 33 | Stori 77: Croeshoelio a Stori 78: Atgyfodi |
| 34 | Stori 81: Mynd yn ôl i'r Nefoedd |
| 35 | Stori 82: Pentecost |
| 36 | Stori 90: Nefoedd Newydd a Daear Newydd |

SAMPLE

# Stori 55: Galw Disgyblion

NODIADAU:

Roedd Iesu'n mynd o dref i dref, yn dweud wrth bobl am deyrnas Duw. Roedd y bobl yn hoffi'r pethau roedd Iesu'n eu dweud ac roedden nhw am glywed mwy.

Felly erbyn iddo gyrraedd Capernaum, dinas ar lan Môr Galilea, roedd y dyrfa'n enfawr!

Roedd angen i Iesu feddwl am ffordd y gallai pawb ei weld a'i glywed. Pan welodd ddau gwch pysgota yn y dŵr, yn agos at lan y llyn, cafodd syniad.

Roedd y cychod yn wag ac roedd y pysgotwyr yn golchi eu rhwydi ar y lan ar ôl bod yn pysgota ar y llyn dros nos.

**'Gaf i fenthyg un o'r cychod?'** gofynnodd Iesu i un o'r pysgotwyr, o'r enw Simon.

**'Iawn, siŵr,'** atebodd Simon.

Pan ddringodd Iesu i'r cwch, gofynnodd i'r pysgotwr rwyfo allan ychydig o'r lan.

Pan oedd yn ddigon pell, ond ddim yn rhy bell, fel bod pawb yn gallu ei weld a'i glywed, dechreuodd Iesu ddysgu'r bobl.

Ar ôl iddo orffen siarad, trodd Iesu at Simon a dweud, **'Gad i ni fynd allan i ran ddwfn y llyn i ddal rhywfaint o bysgod.'**

Roedd Simon yn amheus.

**'Meistr,'** meddai, **'roedd fy ffrindiau a minnau allan ar y llyn drwy'r nos heb ddal dim byd! Ond, hei, os mai dyna beth rwyt ti eisiau, fe rown ni gynnig arall arni.'**

Felly i ffwrdd â nhw – Iesu a Simon a'i ffrindiau, y pysgotwyr. Pan gyrhaeddon nhw ran ddyfnaf y llyn, dwedodd Iesu, **'Rhowch eich rhwydi yn y dŵr!'**

Rhoddodd y pysgotwyr eu rhwydi yn y dŵr fel y dwedodd Iesu wrthyn nhw.

SAMPLE

Cyn hir, roedd y rhwydi'n llawn pysgod! Pysgod yn fflipio a fflapio a fflopio! Rhwydi mor llawn nes iddyn nhw ddechrau rhwygo.

NODIADAU:

Galwodd Simon am help gan gwch cyfagos. A rhwyfodd ei bartneriaid, Iago ac Ioan, ato a helpu i dynnu'r rhwydi i'r cwch.

Cyn hir roedd y ddau gwch yn llawn pysgod. Pysgod yn fflipio a fflapio a fflopio. Mor llawn fel eu bod bron â suddo.

Edrychodd Simon ar Iesu. Nid dyn cyffredin oedd hwn – roedd y ddalfa enfawr ac annisgwyl o bysgod yn profi hynny. Roedd Simon wedi dychryn. Syrthiodd ar ei liniau, fel petai'n addoli Duw, a dwedodd wrth Iesu, **'Dos i ffwrdd, plis. Dw i wedi gwneud llawer o bethau drwg a dw i ddim yn haeddu bod yn dy gwmni di.'**

Gwenodd Iesu arno a dweud, **'Paid â bod yn ofnus. Mae gen i waith i ti – ac i dy ffrindiau di. O hyn ymlaen, byddwch chi'n fath gwahanol o bysgotwyr. Byddwch chi'n dal pobl, nid pysgod!'**

Felly, pan aethon nhw yn ôl i'r lan, dechreuodd Simon a'i frawd Andreas a'u partneriaid, Iago ac Ioan, ddilyn Iesu. Daethon nhw'n ddisgyblion iddo – yn benderfynol o fynd lle'r oedd Iesu'n mynd, gwylio beth roedd Iesu'n ei wneud, a dysgu cymaint ag y gallen nhw gan Iesu.

Felly, gadawon nhw bopeth arall ar ôl.

Eu cychod.

A'u rhwydi.

A'r holl bysgod a ddalion nhw – yn fflipio a fflapio a fflopio!

SAMPLE

# Stori 55: Galw Disgyblion

## Croesawu a pharatoi

*Wrth gyfarch y plant, gwnewch eich gorau i gynnwys pawb a sicrhau bod pawb yn eich gweld ac yn eich clywed.*

*Dywedwch wrth y plant sut yr hoffech chi iddyn nhw ymateb i'r stori. Dyma un syniad:*

**Oes rhai ohonoch chi wedi bod yn pysgota? Beth wnaethoch chi ei ddefnyddio i ddal y pysgod?** *[Gadewch i rai o'r plant ateb.]*

**Yn nyddiau Iesu, roedden nhw'n defnyddio rhwydi enfawr i ddal pysgod. Roedden nhw'n taflu'r rhwydi i'r dŵr, yn disgwyl i'r pysgod nofio i mewn iddyn nhw, ac yna'n tynnu'r rhwydi mawr, trwm yn ôl, allan o'r dŵr.**

**Roedd rhaid i chi fod yn gryf ac yn gyhyrog i wneud y gwaith. Roedd yn waith drewllyd hefyd – trin y pysgod, a glanhau a thrwsio'r rhwydi.**

**Yn ein stori ni heddiw, pan glywch chi am bysgota, meddyliwch am y rhwydi enfawr. A phan glywch chi am y pysgod yn 'fflipio a fflapio a fflopio', gallwch chi wneud wyneb pysgodyn a fflipio a fflapio a fflopio o gwmpas y lle.**

**Nawr, gwnewch eich hunan yn gyfforddus. Mae'n amser dechrau.**

## Cyflwyniad

**Ydych chi wedi cael diwrnod cyffredin, braidd yn ddiflas, rhyw dro, ac yna mae rhywbeth rhyfeddol ac annisgwyl yn digwydd? Mae stori heddiw'n sôn am ddiwrnod pryd ddigwyddodd hynny i griw o bysgotwyr, gan newid eu bywydau am byth.**

**Gadewch i ni AGOR Y LLYFR i stori yn y Beibl o'r enw 'Galw Disgyblion'.**

## Y Stori

*Darllenwch y stori o'r enw 'Galw Disgyblion'.*

**A dyna ddiwedd ein stori ni o'r Beibl. Gadewch i ni aros a meddwl am funud. Rhowch eich dwylo ar eich glin ac anadlu'n ddwfn, i mewn … ac allan.**

## Munud dawel i fyfyrio a rhyfeddu

**Mae 'na fwy nag un peth yn ein synnu yn y stori o'r Beibl, on'd oes? Pan wnaeth y pysgotwyr fel y gofynnodd Iesu iddyn nhw a thaflu'r rhwydi i'r dŵr eto, fe ddalion nhw gymaint o bysgod fel bod pysgotwyr gerllaw wedi gorfod eu helpu i dynnu'r rhwydi i mewn.**

**Dyna un syndod. Hefyd, er bod y criw hyn o ddynion yn ennill arian trwy ddal pysgod, fe benderfynon nhw roi'r gorau i'r busnes pysgota a dilyn Iesu.**

**Caewch eich llygaid am funud** *(neu rhowch rywbeth i'r plant ganolbwyntio arno yn y tu blaen).*

**Ar ôl noson hir o bysgota, heb ddal dim, tybed sut deimlad oedd dal cymaint o bysgod ar ôl taflu'r rhwydi i'r dŵr eto fel y gofynnodd Iesu iddyn nhw?** *(Arhoswch am ychydig.)*

**Tybed hefyd, beth oedd mor arbennig am Iesu fel bod y dynion hyn wedi rhoi'r gorau i'w busnes a'u swyddi, yn y fan a'r lle, a dewis ei ddilyn ef.**

*Rhowch amser i fyfyrio. Gan ddechrau â 10, rhifwch yn ôl i 1 yn araf yn eich meddwl.*

## Cyflwyniad i'r weddi

**Rwy'n mynd i ddweud gweddi nawr. Os ydych chi eisiau gwneud hon yn weddi i chi hefyd, dwedwch 'Amen' (sy'n golygu**

SAMPLE

**'Rwy'n cytuno') ar y diwedd ar fy ôl i. (Os nad ydych chi, gallwch chi eistedd yn dawel a meddwl am y stori a glywsoch chi heddiw.)***

** Defnyddiwch y geiriau mewn cromfachau mewn ysgolion lle mae hynny'n briodol.*

## Gweddi

**Annwyl Dduw,**
**Helpa fi i wybod pryd y mae'n amser newid rhywbeth yn fy mywyd, a gwna fi'n ddigon dewr i wneud hynny.**
**Amen**

***Cymeriadau hanfodol:*** *Llefarydd, Iesu, Pedr, disgyblion eraill*

***Cymeriadau ychwanegol:*** *Pysgotwyr mewn cwch arall*

SAMPLE

# Stori 38: Jona

NODIADAU:

Ninefe oedd y ddinas fwyaf yn y byd – prifddinas ymerodraeth bwerus Asyria, a oedd yn fygythiad i'r holl wledydd eraill.

Roedd Israel yn un o'r gwledydd hynny. Dyna lle'r oedd y proffwyd Jona'n byw. Un diwrnod, rhoddodd Duw neges i Jona i fynd â hi at bobl Ninefe.

**'Dwed wrth bobl Ninefe fy mod i wedi gweld yr holl bethau drwg maen nhw'n eu gwneud ac os na fyddan nhw'n newid, fe fyddaf i'n eu dinistrio.'**

Roedd Jona wedi dychryn yn ofnadwy. Yn un peth, roedd arno ofn mynd i Ninefe. A hefyd, roedd arno eisiau i bobl Ninefe gael eu dinistrio ac roedd yn poeni y byddai Duw'n maddau iddyn nhw.

Felly rhedodd i ffwrdd. Pan gyrhaeddodd borthladd Jopa, daliodd long oedd yn mynd i Tarshish yn Sbaen – lle oedd mor bell o Ninefe ag y gallai fynd.

Ond roedd Duw'n gwybod yn iawn beth roedd yn ceisio'i wneud! Felly anfonodd storm ofnadwy ac roedd perygl i'r llong gael ei chwalu.

Roedd y gwynt yn chwythu a'r glaw yn pistyllio. Roedd y llong yn ysgwyd o ochr i ochr. Ac roedd y morwyr yn gweddïo ar eu duwiau i'w hachub. Ond roedd Jona'n cysgu'n sownd yn yr howld.

Pan ddaeth y capten o hyd iddo, gwaeddodd, **'Dihuna'r diogyn! Galw ar dy Dduw di i'n hachub ni!'**

**'Dwi'n credu mai fy Nuw i sydd wedi achosi'r storm,'** cyfaddefodd Jona. **'Fy Nuw i, Duw'r Nefoedd, sydd wedi creu y môr a'r tir a dw i'n broffwyd iddo. Rhoddodd Duw neges i fi i'w rhoi i bobl Ninefe, ond dwi'n rhedeg i ffwrdd.'**

Aeth y storm yn waeth gan chwythu'r llong yma a thraw.

**'Dwed wrthon ni beth i'w wneud!'** meddai'r morwyr yn ofnus.

SAMPLE

**'Taflwch fi i'r môr,'** meddai Jona. **'Ac fe gewch chi eich achub.'**

Doedd y morwyr ddim eisiau gwneud hynny. Ond yn y diwedd, doedd ganddyn nhw ddim dewis ac fe daflon nhw Jona i'r môr.

A tawelodd y storm.

Dyna ddiwedd ar drafferthion y morwyr. Ond dim ond dechrau ar drafferthion Jona. Achos dyma bysgodyn mawr iawn yn nofio draw ac yn llyncu Jona'n gyfan!

Bu Jona ym mol y pysgodyn mawr am dri diwrnod. Trwy'r amser y buodd ym mol y pysgodyn roedd yn gweddïo.

Clywodd Duw ei weddïau.

Siaradodd Duw â'r pysgodyn.

A chwydodd y pysgodyn Jona ar y lan.

Yna, siaradodd Duw â Jona. Eto.

Rhoddodd yr un neges yn union iddo.

**'Dwed wrth bobl Ninefe fy mod i wedi gweld yr holl bethau drwg maen nhw'n eu gwneud ac os na fyddan nhw'n newid, fe fyddaf i'n eu dinistrio.'**

I ffwrdd â Jona i Ninefe. Ninefe oedd y ddinas fwyaf yn y byd – ydych chi'n cofio? Roedd yn cymryd tri diwrnod i gerdded trwyddi! Ac wrth i Jona gerdded fe waeddodd neges Duw.

Beth ddigwyddodd? Credodd pobl Ninefe, a hyd yn oed y brenin, neges Duw! Wnaethon nhw addo newid eu ffyrdd. Fe dynnon nhw eu dillad crand a gwisgo dillad garw wedi'u gwneud o ddefnydd sachau, sachliain, i ddangos eu bod o ddifrif. A gwnaeth Duw faddau iddyn nhw.

Roedd Jona wedi llwyddo ar ei daith! Dylai fod yn hapus. Ond, yn ei galon, roedd Jona'n dymuno gweld Ninefe'n cael ei dinistrio. Felly, dechreuodd gwyno.

**'Ro'n i'n gwybod mai dyma fyddai'n digwydd!'** grwgnachodd. **'Dyna pam wnes i redeg i ffwrdd. Rwyt ti'n Dduw sy'n hoffi maddau a dyna beth rwyt ti wedi'i wneud!'**

Aeth Jona allan o'r ddinas – i eistedd a phwdu. Felly gwnaeth Duw i goeden fach dyfu i roi cysgod iddo. Ac, yna, anfonodd Duw bryfyn i ymosod ar y planhigyn ac roedd Jona'n chwysu yn yr haul.

**'Pam wyt ti wedi lladd y goeden?'** cwynodd Jona.

**'Y goeden?'** gofynnodd Duw. **'Wyt ti wedi gwylltio am fy mod i wedi lladd coeden fach? Wel, gwranda ar hyn:**

**Oes gen i ddim hawl i boeni am y 120,000 o bobl sy'n byw yn ninas Ninefe? Ac am eu hanifeiliaid? Oes gen i ddim hawl i'w hachub nhw i gyd?'**

Dydyn ni ddim yn gwybod beth ddwedodd Jona nesaf. Ond gobeithio ei fod wedi dysgu caru pobl Ninefe fel yr oedd Duw yn eu caru!

SAMPLE

# Stori 38: Jona

## Croesawu a pharatoi

*Wrth gyfarch y plant, gwnewch eich gorau i gynnwys pawb a sicrhau bod pawb yn eich gweld ac yn eich clywed.*

*Dywedwch wrth y plant sut yr hoffech chi iddyn nhw ymateb i'r stori. Dyma un syniad:*

**Heddiw, mae eisiau i chi helpu i adrodd y stori. Pan ddwedwn ni'r geiriau 'Roedd y gwynt yn chwythu', allwch chi wneud sŵn gwynt cryf yn rhuo?** *(Ewch ati i ymarfer.)*

**Pan ddwedwn ni'r geiriau 'Roedd y llong yn ysgwyd o ochr i ochr', allwch chi ysgwyd o ochr i ochr yn ofalus iawn? Gadewch i ni roi cynnig arni.** *(Ewch ati i ymarfer.)*

**Nawr, gwnewch eich hunan yn gyfforddus. Mae'n amser dechrau.**

## Cyflwyniad

**Pan o'n i'n fach, roedd oedolion yn arfer gofyn i mi wneud pethau nad o'n i eisiau eu gwneud, fel clirio fy nheganau neu wneud fy ngwaith cartref. Yn ein stori ni heddiw, roedd Duw wedi gofyn i ddyn wneud tasg arbennig iawn ond ... o, diar ... doedd y dyn yn bendant ddim eisiau ei gwneud.**

**Gadewch i ni AGOR Y LLYFR ar stori o'r Beibl o'r enw 'Jona'.**

## Y Stori

*Darllenwch y stori o'r enw 'Jona'.*

**A dyna ddiwedd ein stori ni o'r Beibl. Mae'n bryd i ni aros a meddwl am funud. Rhowch eich dwylo ar eich glin ac anadlu'n ddwfn, i mewn ... ac allan.**

## Munud dawel i fyfyrio a rhyfeddu

**Roedd Duw wedi gofyn i Jona wneud tasg arbennig, ond anodd, a beth wnaeth Jona? Rhedeg i ffwrdd! Weithiau, rhedeg i ffwrdd am fod gennych dasg anodd yw'r peth gwaethaf y gallwch ei wneud.**

**Caewch eich llygaid** *(neu rhowch rywbeth i'r plant ganolbwyntio arno yn y tu blaen)* **ac eisteddwch yn dawel. Pa fath o bethau sy'n anodd i chi eu gwneud?** *(Arhoswch am ychydig eiliadau.)*

**Efallai bod angen i chi gyfaddef ar ôl gwneud rhywbeth drwg. Neu efallai bod angen i chi ofyn i rywun rydych chi'n ei drystio am help i wneud rhywbeth anodd. Neu efallai bod angen i chi ddweud 'Sori' wrth ffrind.**

*Rhowch amser i fyfyrio. Gan ddechrau â 10, rhifwch yn ôl i 1 yn araf yn eich meddwl.*

## Cyflwyniad i'r weddi

**Rwy'n mynd i ddweud gweddi nawr. Os ydych chi eisiau gwneud hon yn weddi i chi hefyd, dwedwch 'Amen' (sy'n golygu 'Rwy'n cytuno') ar y diwedd ar fy ôl i. (Os nad ydych chi, gallwch chi eistedd yn dawel a meddwl am y stori a glywsoch chi heddiw.)***

** Defnyddiwch y geiriau mewn cromfachau mewn ysgolion lle mae hynny'n briodol.*

## Gweddi

**Annwyl Dduw,<br>Pan fydda i'n teimlo fel rhedeg i ffwrdd yn lle gwneud rhywbeth anodd, gwna fi'n ddigon dewr i ofyn am help.<br>Amen**

SAMPLE

## Agor y Llyfr

# Rhannu straeon Beiblaidd gyda plant ymhob man, gan ddefnyddio grym adrodd stori.

Gall adrodd stori o'r Beibl yn dda danio dychymyg, ysbrydoli archwilio, rhoi gobaith, creu gwên, dysgu gwersi pwysig a chysylltu cenedlaethau.

Mae Agor y Llyfr yn brosiect cyffrous i rannu gyda plant straeon Beiblaidd, a hynny mewn ffordd hwyliog, rhyngweithiol a chofiadwy.

Cymdeithas y Beibl, Stonehill Green,
Westlea, Swindon SN5 7DG
Elusen gofrestredig 232759
**cymdeithasybeibl.org.uk**